**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

# Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 8

## AMRYWIOL

**Addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu**

**46.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan awdurdodir awdurdod lleol i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; neu

(b) pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan awdurdod lleol yn llai na chwe wythnos oed.

(2) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys—

(a) ni fydd adran 22(4) (b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;

(b) bydd adran 22(4)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r canlynol yn cael ei fewnosod yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the local authority has placed the child for adoption.";

(c) bydd adran 22(5)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r geiriau "(4)(c) and (d)" yn cael eu mewnosod yn lle "(4)(b) to (d)"; ac

(ch) ni fydd paragraffau 15 a 21 o Atodlen 2 i Ddeddf 1989 yn gymwys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan awdurdodir cymdeithas fabwysiadu gofrestredig i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan gymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn llai na 6 wythnos oed.

(4) Pan fydd paragraff (3) yn gymwys —

(a) bydd adran 61(2)(a) o Ddeddf 1989 yn effeithiol o ran y plentyn p'un a letyir ef gan neu ar ran y gymdeithas ai peidio;

(b) ni fydd adran 61(2)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;

(c) bydd adran 61(2)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe mewnosodwyd yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the registered adoption society has placed the child for adoption.".

**Cyswllt**

**47.**—(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu o dan adran 27(2) o'r Ddeddf i wrthod caniatáu'r cyswllt a fyddai fel arall yn ofynnol yn rhinwedd gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth, cyn gynted ag y gwneir y penderfyniad, hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(2) Gellir peidio â dilyn telerau gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf drwy gytundeb rhwng yr asiantaeth fabwysiadu ac unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn darparu cyswllt iddo â'r plentyn yn yr amgylchiadau canlynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol —

(a) os yw'r plentyn yn ddigon hen a'i fod yn deall digon, yn ddarostyngedig i gytundeb y plentyn;

(b) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, yn ddarostyngedig i ymgynghori blaenorol â'r darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu; ac

(c) hysbysiad ysgrifenedig gan yr asiantaeth i'r personau a bennir ym mharagraff (4) o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod, o fewn saith niwrnod o'r cytundeb i beidio â dilyn telerau'r gorchymyn.

(3) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn amrywio neu'n atal unrhyw drefniadau a wnaed (heblaw o dan orchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf) er mwyn caniatáu cyswllt i unrhyw berson â'r plentyn, rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(4) Mae'r personau canlynol yn rhai a bennir at ddibenion paragraffau (1) a (2) —

(a) y plentyn os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn ei fod yn ddigon hen a'i fod yn deall digon;

(b) rhiant y plentyn;

(c) rhiant neu warcheidwad y plentyn;

(ch) unrhyw berson y mae'r gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf yn darparu cyswllt iddo;

(d) unrhyw berson y caniataodd yr asiantaeth gyswllt iddo â'r plentyn;

(dd) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd;

(e) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth o'r farn bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn berthnasol.

(5) Mae'r wybodaeth ganlynol yn un a bennir at ddibenion paragraffau 1, 2 a 3 —

(a) penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu;

(b) dyddiad y penderfyniad;

(c) y rhesymau dros y penderfyniad;

(ch) pa hyd y pery'r penderfyniad (os yw'n gymwys).

**Dirymu**

**48.** Drwy hyn dirymir Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001(**1**), Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003(**2**) a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003(**3**).

(**1**) OS 2001/1272 (Cy.71)
(**2**) OS 2003/1634 (Cy.176)
(**3**) OS 2003/3223 (Cy.306)